Cyngor Bro
Trelech a'r Betws
Community Council

Adroddiad Blynyddol 2022-2023

Roedd 2022 yn flwyddyn Etholiadol ac fe llanwyd y 10 sedd yn y Cyngor Bro.

Fe ail-etholwyd y Cynghorydd Sir Jean Lewis hefyd i gynrychioli'r ardal.

Fe gyfarfododd y Cynghowryr naill a'i wyneb yn wyneb neu dros y wê yn reolaidd bob dau fis i drafod a codi materion o bwys i'r plwyf. Mae'r Cynghorydd Sir hefyd wedi bod yn bresennol yn y cyfarfodydd i roi a derbyn diweddaraid a gwybodaeth am ddigwyddiadau a phroblemau o fewn y plwyf.

Nid yw Cyngor Cymuned Trelech a'r Betws yn codi praesept ar y trigolion gan ei fod yn derbyn incwm wrth Elusen Cyngor Cymuned Trelech. Yn ystod y flwyddyn roedd yr incwm yma yn ddigonol i dalu am gyflog y clerc, costau adnewyddu y goleuadau stryd (cost sydd wedi ei ddosbarthu allan dros 7 mlynedd), cost trydan a cynnal a chadw y goleuadau stryd, y gost o gadw llwybr Clunfelyn yn glir o or-dyfiant ynghyd a chost Cyrifwyr, Yswiriant, Llogi Neuadd ac aelodaeth Un Llais Cymru.

Codwyd nifer o faterion dros y flwyddyn gan gynnwys cyflwr heolydd, cyflymder traffig drwy pentref Trelech, llwybrau cyhoeddus, ceisiadau cynllunio, cwynion i DŴr Cymru, cyflwr pont Penybont, gor-dyfiant ac erydiad llwybr Clunfelyn a difrod stormydd i nodi ond ychydig.

Mae'r Cynhghorwyr wedi diwygio a diweddaru polisiau'r Cyngor dros y flwyddyn ac wedi cwblhau hyfforddiant i'w cynorthwyo yn eu swyddi.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol mi'r oedd gan y Cyngor £1,097.49 yn y cyfrif banc. Gellir gweld y cyfrifon llawn ar we-fan y Cyngor.

Blaenoriaeth y Cyngor yw i godi a datrys unrhyw bryderon sydd yn cael eu codi gan breswylwyr y plwyf ermwyn sicrhau fod y pentrefi yn ffynnu ac yn parhau i fod yn bentrefi pleserus a chymwynasgar.

Clerc / Clerk: Mrs Liza Jones, Treto Isaf, Trelech, Caerfyrddin/Carmarthen, SA33 6SH
Ffôn / Phone: 01239698601 / 07419137565
Ebost / E-mail: clerc@trelecharbetws.cymru